# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tereen Ltd**

**Ystafelloedd 2-7**
**Parc Menter Quinton Hazell**
**Ffordd Glan Y Wern**
**Bae Colwyn**
**LL28 5BS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_
17 Mawrth 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Tereen Ltd

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Tereen Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 17/06/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r darparwr yn sicrhau llesiant y bobl a'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi. Er bod y pandemig wedi effeithio ar staffio a recriwtio, mae mesurau ar waith gyda chynlluniau wrth gefn i atal lefelau staffio rhag dod yn broblem. Mae'r rheolwyr yn angerddol am ansawdd y gofal ac yn sicrhau bod y bobl yn derbyn y gofal cywir. Mae'r darparwr yn buddsoddi amser a chyllid i'r gwasanaeth yn y gwasanaeth ac yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus a thrylwyr o ansawdd y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei dderbyn.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r gofal y mae'r bobl yn ei dderbyn yn cael ei gynllunio ar sail anghenion unigol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn a'u bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu parchu. Mae'r tair ffeil gofal a adolygwyd gennym yn drefnus ac yn fanwl gyda gwybodaeth am anghenion gofal, dewisiadau a hoffterau'r bobl. Mae cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r bobl yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain.

Mae pobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cymorth i barhau i fod mor annibynnol â phosibl o fewn eu trefn ddyddiol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol, teulu a ffrindiau; dros y ffôn neu FaceTime. Mae'r staff gofal yn effeithiol wrth sicrhau cyfathrebiad da rhwng gweithwyr proffesiynol, aelodau'r teulu a'r rheolwyr. Mae systemau effeithiol ar waith sy'n cefnogi hyn. Mae goruchwyliaeth y rheolwyr yn ddibynadwy, yn barhaus ac yn effeithlon.

Caiff pobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu. Mae cofnodion gofal yn dangos bod asesiadau risg priodol ar waith lle bo angen; mae'r rhain yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y staff gofal y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cael digon o amser yn ystod galwadau a rhyngddynt. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi'n briodol. Mae diwylliant agored a thryloyw. Pobl a'u hanghenion gofal yw'r ffocws.

Mae'r staff gofal yn cael eu cefnogi a rhoddir offer cofnodi priodol iddynt er mwyn ymgymryd â gofal digonol. Maent yn gallu cofnodi gwybodaeth am anghenion gofal y bobl yn ystod pob ymweliad. Mae'r bobl yn derbyn gofal, sydd wedi'i gynllunio o amgylch 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt. Mae'r staff gofal yn mynychu hyfforddiant rheolaidd, a bwriedir cynyddu hyfforddiant wyneb yn wyneb. Rhoddir ystyriaeth ofalus i sicrhau gweithio diogel o fewn y pandemig.

## Gofal a Chymorth

Mae'r sampl o gynlluniau personol a welsom yn gyfredol, yn gywir ac yn fanwl. Mae'r gofalwyr a'r rheolwyr yn annog gweithwyr proffesiynol a pherthnasau'r bobl i fod yn rhan o gynllunio gofal.  Roedd y cofnodion gofal a welsom yn dangos tystiolaeth, a bod dymuniadau'r bobl a'u dewis yn cael eu hystyried wrth gynllunio gofal. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd un unigolyn wrthym “*mae'r gofal yr wyf yn ei dderbyn bob amser wedi bod yn dda iawn ac mae'r gofalwyr yn neis iawn”.* Dangoswyd i ni sut y gall cofnodion gofal electronig gael eu cofnodi pan fyddant gyda'r bobl, a'u diweddaru a'u cyrchu gan yr holl ofalwyr sy'n gysylltiedig ac yn cael eu goruchwylio gan y rheolwyr. Mae cofnodion gofal yn dangos bod y staff gofal yn cofnodi'n glir ac yn gywir yn ystod pob galwad. Mae cofnodion gofal yn dangos bod arferion dyddiol yn cael eu hystyried wrth gofnodi, gan gynnwys dewisiadau prydau bwyd, symud, risgiau a gweithgareddau.

Mae cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud â gweithwyr gofal proffesiynol. Gwelsom gofnodion gofal a oedd yn dystiolaeth o waith cyfathrebu a chynllunio gofal effeithiol. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym eu bod yn cysylltu'n rheolaidd â'r staff gofal a'r rheolwyr o ran anghenion gofal y bobl. Mae unrhyw newidiadau yn cael eu hadrodd yn effeithlon ac yn brydlon i weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Gwelsom dystiolaeth o newidiadau i gofnodion gofal pan fydd anghenion gofal yn newid, a bod asesiadau risg priodol ar waith lle bo angen. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu amserol ac effeithiol rhwng gweithwyr proffesiynol ynghylch unrhyw newidiadau.

Mae mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Mae polisïau'r gwasanaeth o ran rheoli heintiau yn gyfredol ac yn unol â'r canllawiau cyfredol. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ddilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau a ddarperir. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel oherwydd bod y staff gofal yn ofalus ac wedi'u hyfforddi i reoli heintiau. Mae'r rheolwyr yn adrodd eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i atal heintiau rhag lledaenu, trwy gyfathrebu â'r staff gofal, defnydd effeithiol o gyfarpar diogelu personol.

Mae gweithdrefnau rheoli meddyginiaeth effeithiol ar waith. Gwelsom y polisi a'r gweithdrefnau meddyginiaeth, sy'n gyfredol ac yn unol â deddfwriaeth gyfredol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth helpu pobl i gymryd eu meddyginiaeth. Mae'r staff gofal a'r rheolwyr yn gweithio'n agos gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau eu bod yn cael y feddyginiaeth gywir. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus o gael cymorth i gymryd eu meddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol, sy'n cefnogi gwasanaeth o ansawdd da. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth, sydd ar gael i'r staff gofal eu gweld. Mae'r bobl yn cael asesiad trylwyr o angen cyn derbyn y gwasanaeth. Mae'r bobl, ffrindiau teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cymryd rhan yn y broses hon. Mae'r gwaith o fonitro'r holl ofal yn amserol, yn aml ac yn effeithlon; mae cofnodion gofal yn cael eu diweddaru pan fydd anghenion gofal yn newid. Gwnaethom gydnabod bod iechyd a llesiant nifer o'r bobl wedi gwella ers derbyn y gwasanaeth. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a bod y staff gofal yn dda.

Mae'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth yn barhaus ac yn effeithiol. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn cyfeirio at waith monitro a gwelliant parhaus. Mae rhaglen hyfforddiant barhaus ar gyfer y staff gofal; mae hyn yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn casglu gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth trwy siarad â'r bobl, gweithwyr proffesiynol a'r staff gofal a monitro ansawdd y gwasanaeth trwy archwiliadau.

Mae mesurau effeithiol ar waith i sicrhau sefydlogrwydd ariannol y gwasanaeth, wrth sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir o ansawdd da. Mae'r darparwr wedi buddsoddi mewn swyddfeydd newydd, sy'n hygyrch, yn briodol ddiogel ac yn ganolog. Er bod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar lefelau staffio, mae recriwtio a chadw staff parhaus a diogel ar hyn o bryd ac yn y gorffennol. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y cofnodion staffio a dogfennau cyllid y gwasanaeth. Gwelsom sampl o archwiliadau, sy'n dangos gwaith cynllunio ariannol a gwaith cynnal a chadw effeithiol ac effeithlon.